

Rhagfyr 2018 - Ionawr 2019 rhifyn 117



£2


Nadolig Llawen
a Blwyddyn
Newydd Dda

lingo

newydd

un o gyhoeddiadau
GOLWG

Frank a'i ffrind newydd



Dw i'n hoffi...
meddai
Maggi Noggi



Byw yn
yr Alpau




Helo, bawb!



Dych chi'n hoffi'r Nadolig?
Beth dych chi'n hoffi gwneud ar Ddydd Nadolig?

Dych chi'n hoffi gwyllo ffilm gyda'r teulu neu ffrindiau? Mae **Pluen Eira** ar S4C yn ffilm i'r teulu i gyd. Mae'r stori am fachgen, Frank, a thwrci! Mae **lingo newydd** wedi bod yn siarad efo Rob Evans, sy wedi ysgrifennu'r sgrript. Mae'r cyfweiliad ar dudalen 16.

Fyddwch chi ddim isie bwyta twrci i ginio Nadolig ar ôl gwyllo'r ffilm efallai! Os dych chi isie rhywbeth gwahanol, mae gan Sarah Philpott lawer o syniadau. Mae hi'n figan. Mae hi'n dweud bod digon o fwyd blasus i figaniaid dros y Nadolig ac mae ei rysâit ar gyfer caserol cnau castan ar dudalen 12.



Dych chi wedi bod yn prynu anrhegion Nadolig? Os dych chi'n hwyr yn siopa, mae gan **lingo newydd** lawer o syniadau i chi. Beth am botel o fodca mwyar duon neu siynti Nadolig? Mae Bethan Batty yn gwneud siynti a jam yn ei chartref yn Sir Ddinbych (tudalen 4).



Dych chi'n hoffi rhoi llyfrau Cymraeg yn anrhegion Nadolig, efallai? Mae gan Debra Morgante syniadau am lyfrau sy'n gwneud anrhegion da ar dudalen 18.

Dych chi'n cofio newyddion 2018? Pa straeon dych chi'n cofio? Brexit? Donald Trump? Dewis arweinydd newydd Plaid Llafur Cymru? Mae'r sgriptwraig comedi, Sian Harries, yn edrych yn ôl dros straeon newyddion mawr 2018 ar dudalennau 8 a 9.



Ble bynnag byddwch chi a beth bynnag byddwch chi'n gwneud, Nadolig Llawen iawn a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd!

Geiriau

cyfweiliad – *interview*
cneuen castan, cnau castan – *chestnut, -s*
mwyar duon – *blackberries*
siynti – *chutney*
arweinydd – *leader*
ble bynnag – *wherever*
beth bynnag – *whatever*

Cynnwys

Rhagfyr – Ionawr 2018/19

- 2 Helo, bawb!
- 3 Eich tudalen chi – llythyrau
- 4 O ddiddordeb – Mewn Picil: busnes gwneud siynti
- 5 Rhywbeth bach – basgedi ac addurniadau
- 6 'Dw i'n hoffi ...' gyda Maggi Noggi
- 8 Ha ha ha! Dyma'r newyddion – edrych yn ôl ar 2018
- 10 Gweld sêr – Blwyddyn Darganfod ydy 2019
- 12 Cinio Nadolig – heb dwrci! Bwyd figan blasus
- 13 Y Sêr gyda Chris Needs
- 14 Dros y byd – byw yn y mynyddoedd: y dringwr Dylan Lloyd-Davies Jones, sy'n byw yn yr Alpau
- 15 Ceirw Siôn Corn – Natur gyda Bethan Wyn Jones
- 16 Ar y boc – Priodas Pum Mil a Pluen Eira
- 18 Dewis Debra – llyfrau fel anrhegion Nadolig da
- 19 Croesair ac idiom Mumph



Geiriau

siynti – *chutney*
addurn, -iadau – *decoration, -s*
darganfod – *discovery, (to) discover*
dringwr – *climber*
sy'n byw – *who lives*
carw, ceirw – *reindeer*
pluen eira – *snowflake*
fel – *as*



Lliwiau newydd!

Lliwiau lingo newydd Mae cod lliw i'ch helpu chi i ddarllen **lingo newydd**.

1

Darllenwch y darnau melyn os dych chi'n dechrau dysgu.

2

Darllenwch y darnau gwyrdd os dych chi'n fwy profiadol.

3

Darllenwch y cyfan os dych chi'n brofiadol iawn.

■ Dyma liw geiriau'r De. ■ Dyma liw geiriau'r Gogledd. ■ Mae'r lliw yma i bawb.

Cyhoeddiad gan gwmni GOLWG

lingo newydd, d/o Golwg, Blwch Post 4, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion. SA48 7LX ☎ 01570 423529 📠 01570 423538

✉ e-bost: lingonewydd@golwg.com

Cyfranwyr: Bethan Lloyd, Dylan Iorwerth, Chris Needs, Dyfan Williams, Mumph, Bethan Wyn Jones

EICH TUDALEN CHI



Helo, bawb!

Rob ydw i ac un o fy hoff bethau ydy chwarae fy ngitâr fas.

Dw i'n dod o deulu cerddorol a dw i wedi bod yn chwarae gitâr fas ers tua 15 mlynedd. Mi brynais i fy ngitâr fas gyntaf pan o'n i'n un deg chwech oed, ar ôl cynilo arian yn gweithio yn Woolworths. Mae'r gitâr gen i heddiw.

Wnes i dreulio llawer o amser yn fy llofft, yn dysgu caneuon gan fy hoff fandiau fel Y Stereophonics, Muse a Queen. Wnes i ymarfer ac ymarfer! Doedd Mam a Dad ddim yn hapus, achos roedd hi'n swnllyd iawn yn y tŷ!

Dim ond ar ôl gorffen yn y brifysgol wnes i chwarae efo band o ddifrif. Roedden ni'n galw ein hunain yn 'Autopilots'. Ro'n i'n teithio i Fanceinion o Ogledd Cymru bob dydd lau i ymarfer ac ysgrifennu caneuon newydd efo'r band. Roedd o'n waith caled ... ond roedd o'n wych.

Wnaethon ni chwarae mewn llawer o dafarndai a chlybiau – un o'r rhai gorau oedd



y Cavern yn Lerpwl. Ces i amser anhygoel yno! Ond roedd y gorau eto i ddo

... wnaethon ni berfformio mewn clwb o'r enw 'Astrastube' yn Hamburg. Dyna noson fydda' i byth yn ei hanghofio! Ro'n i'n teimlo fel 'rock star' a chwason ni LAWER o hwyl.


Rŵan, does gen i ddim llawer o amser i chwarae fy ngitâr fas achos mae gen i dair merch fach. Ond pan dw i'n cael y cyfle, dw i'n ymarfer ac yn chwarae'r gân Peppa Pinc neu hwiangerddi, i helpu i gadw'r plant yn hapus!

Dw i'n gobeithio dechrau grŵp newydd yn y dyfodol.

Hwyl fawr!
Rob Price, Llanddulas

Geiriau

cerddorol – musical	incredible, amazing,
cynilo – (to) save	awesome
llofft = ystafell wely	eto i ddo – yet to
– bedroom	come
o ddifrif – seriously	cyfle – opportunity
anhygoel –	



Ar y traeth

Ces i fy ngeni a fy magu yng ngogledd Lloegr. Doedd dim llawer o arian 'da ni pan o'n i'n blentyn ond roedd ein rhieni'n mynd â fy mrawd a fi ar wyliau bob blwyddyn. Fel arfer, roedden ni'n aros mewn carafán ar yr arfordir yn Northumberland. Mae'r arfordir yna yn brydferth iawn.

Roedden ni wrth ein bodd yn chwarae ar y traeth, yn chwilio am grancod a sêr môr yn y pyllau glan môr, ac yn ymweld â'r

hen gastell.

Mae'n rhaid ei fod e'n waith caled i'n rhieni – roedd rhaid iddyn nhw siopa a choginio. Ond dwedon nhw eu bod nhw'n hapus iawn i'n gweld ni'n chwarae yn yr awyr iach, yn bwyta popeth ac yn cysgu mor drwm. Doedd y corn niwl – chwarter milltir i ffwrdd – ddim yn ein diuno ni!

Roedd y tywydd yn braf yn aml, ond roedd y môr, Môr y Gogledd, yn oer bob tro. Pan o'n i'n ugain

oed, es i ar wyliau tramor am y tro cyntaf. Es i yn y môr. Pan ddes i allan, ro'n i'n synnu – doedd fy nhraed i ddim yn las a phinc achos yr oerfel!

Mae pethau wedi newid nawr ac, fel llawer o bobl, dw i wedi bod i leoedd mwy egsotig nag arfordir Northumberland. Ond fydda i byth yn anghofio'r cynnwrf pan o'n i'n edrych ymlaen at ein gwyliau ar lan y môr.

Sheila Pallister,
Caerdydd

Geiriau

arfordir – coast
cranc,-od – crab,-s
sêr môr – starfish
pyllau – pool,-s
mae'n rhaid ei fod e'n – it must have been ...
corn niwl – foghorn
dihuno = deffro – (to) awake
synnu – (to) be surprised
lle, lleoedd – place,-s
cynnwrf – excitement

Dach chi'n hoffi siytnei efo caws a bisgedi? Dach chi'n hoffi cael siytnei yn anrheg Nadolig? Mae Bethan Batty yn hoffi gwneud siytnei a jam. Mae hi wedi dechrau cwmni bach – Mewn Picil.

Picil – hobi a busnes

Mae'r wythnosau cyn y Nadolig yn amser prysur iawn i Bethan Batty. Mae hi'n mynd i lawer o ffeiriau bwyd.

Mae hi'n gwerthu siytnei a jam yn y ffeiriau.

Mae hi'n gwneud siytnei Nadolig efo eirin, orennau, llugaeron, sinamon, tsili, afalau a gwin finegr.

"Blas Nadoligaidd go iawn!" meddai Bethan, sy'n byw yn Llansannan, Sir Ddinbych.

Mae hi'n gwneud fodca efo mwyar duon hefyd.

"Mae pobl yn hoffi eu rhoi nhw yn anrhegion Nadolig," meddai.

Mae'r cynhwysion ar gyfer y siytnei, y jam a'r fodca i gyd yn lleol.

"Dw i'n treulio oriau yn hel mwyar duon.

Mae gan Dad goeden afalau ac mae gan fy mrodyr goed eirin ac eirin damson. Mae fy mrawd yn tyfu'r betys ar gyfer y siytnei. Mae gan bobl eraill goed afalau ac maen nhw'n hael iawn hefyd. Mae pobl yn y pentre yn rhoi pethau i fi – dw i ddim yn gwrthod unrhyw beth! Ac maen nhw'n cael peth o'r cynnyrch yn ôl gen i."



Geiriau

- siytnei – *chutney*
- eirinen, eirin – *plum,-s*
- llugaeronen, llugaeron – *cranberry, cranberries*
- mwyar duon – *blackberries*
- cynhwysyn, cynhwysion – *ingredient,-s*
- treulio – *(to) spend (time)*
- hel = *casglu* – *(to) collect*
- betys – *beetroot*
- hael – *generous*

"Hobi"

Mae Bethan yn gweithio'n llawn amser bob dydd ac mae'r amser yma o'r flwyddyn yn brysur iawn.

"Mae Mewn Picil fel hobi ond mae'n cymryd drosodd y tŷ o rŵan tan y Nadolig!" meddai.

Mae hi'n gwneud siytnei a jam ers tua 10 mlynedd. Dechreuodd hi wneud siytnei gydag afalau o goeden yn yr ardd. Wedyn, roedd ffrindiau'n dod â ffrwythau iddi hi hefyd. Roedd hi'n rhoi jam a siytnei yn anrhegion i bobl.

Un flwyddyn, roedd ffair yn yr ysgol leol. Roedd angen stondin siytnei a jam. "Dw i'n gwneud siytnei a jam," meddai Bethan ... a dyna ei stondin gynta.

"Roedd o'n llwyddiant mawr," meddai Bethan. "Dyna sut wnes i ddechrau – mynd i un neu ddwy ffair ysgol, a dechreuodd pobl glywed am fy siytnei a jam fel 'na.'"

Mae Bethan Batty yn defnyddio labeli Cymraeg ac mae hynny'n plesio cwsmeriaid.

Y llynedd, roedd hi yn y Ffair Aefaf yn Llanelwedd ac roedd y labeli Cymraeg yn denu sylw.

"Roedd llawer o bobl yno o'r Canolbarth a'r De yn dweud, 'Dyn ni'n methu prynu anrhegion gyda labeli Cymraeg yn unig.' Efo labeli Cymraeg, mae o'n edrych fel cynnyrch cartre go iawn ac mae cwsmeriaid yn hoffi ein bod ni'n siarad Cymraeg hefyd."

Geiriau

- llwyddiant – *success*
- gwrthod – *(to) refuse*
- plesio – *(to) please*
- denu sylw – *(to) draw attention*
- methu – *(to) be unable to, can't*
- cynnyrch – *produce*
- go iawn – *proper*

Mae Bethan Batty yn gwerthu ei chynnyrch mewn ffeiriau Nadolig yn Sir Ddinbych ym mis Rhagfyr.



Dyma Bethan Batty

Mae Bethan yn gwneud siytnei a jam yn ei chartref yn Llansannan, Sir Ddinbych.

Enw ei chwmni ydy Mewn Picil.

Mae hi'n hel mwyar duon, afalau ac eirin yn lleol.

Mae hi'n gwerthu'r siytnei a'r jam mewn ffeiriau bwyd.

Mae'r Nadolig yn amser prysur iawn i Bethan.

Geiriau

- siytnei – *chutney*
- hel = *casglu* – *(to) collect*
- mwyar duon – *blackberries*
- eirinen, eirin – *plum,-s*
- yn lleol – *locally*

Mae Sarah Lart yn gwneud basgedi helyg. Mae hi'n gwneud addurniadau Nadolig o helyg hefyd ... ac mae hi'n dysgu pobl eraill ...

Helyg ar y goeden

Dych chi'n hoffi addurniadau Nadolig? Gwaith Sarah Lart ydy gwneud basgedi helyg. Enw ei busnes hi ydy Seren Willow.

Mae hi'n defnyddio helyg i wneud addurniadau Nadolig hefyd.

Mae hi'n rhedeg gweithdai i helpu pobl eraill i wneud yr addurniadau.

Mae Sarah Lart yn byw yn Llandaf, yng Nghaerdydd, gyda'i gŵr, Dave, a dau o blant.

Mae hi'n dod o Loegr yn wreiddiol, ond mae hi wedi byw dros y byd – yn Fiji, Ghana, Awstralia a Seland Newydd.

Mae hi'n byw yng Nghymru ers 25 mlynedd. Mae hi wedi dysgu Cymraeg. Mae hi'n mynd i'r Siop Siarad yn Oriel Canfas, Treganna, Caerdydd, i ymarfer ei Chymraeg.

"Dw i wedi bod yn ddaeaegwr, yn beiriannydd, yn athrawes a dw i wedi gweithio mewn llywodraeth leol gyda Chyngor Caerdydd – a nawr dw i wedi darganfod helyg!" meddai Sarah.

"Dw i wastad wedi mwynhau gwneud crefftau. Pan o'n i'n gweithio gyda'r cyngor, ro'n i'n trefnu dosbarthiadau i ddarpar athrawon. Roedd un dosbarth yn dysgu am helyg.

"Wnes i weld y darpar athrawon yn cerdded o gwmpas gyda'r holl bethau diddorol yma wedi'u gwneud o helyg yn eu bagiau, a wnes i benderfynu 'mod i isie gwneud rhai hefyd. Es i ar gyrsiau ac, yn fuan, roedd basgedi dros y tŷ i gyd!"

Bedair blynedd yn ôl stopiodd Sarah weithio gyda Chyngor Caerdydd. Dechreuodd hi wneud mwy o waith helyg a dechreuodd hi ddysgu pobl eraill i ddefnyddio helyg hefyd.

Geiriau

helyg – willow
 addurn,-iadau – decoration,-s
 gweithdy, gweithdai – workshop,-s
 daeaegwr – geologist
 peiriannydd – engineer
 llywodraeth leol – local government
 darganfod – (to) discover
 wastad – always
 darpar athrawon – trainee teachers
 yn fuan – soon



Gwneud Nadolig!

Mae Sarah yn cynaeafu'r helyg yn y gaeaf "pan mae'r rhisgl yn llachar iawn. Mae'n berffaith ar gyfer gwneud addurniadau Nadolig."

Yn y gweithdai, mae hi'n gwneud sêr, angylion, coed Nadolig a thorchau o helyg.

"Mae pawb yn gallu gwneud y dosbarthiadau. Mae'r helyg yn hyblyg iawn, felly mae'n hawdd gweithio gyda'r pren."

Geiriau

cynaeafu – (to) harvest
 rhisgl – bark
 torch,-au – garland,-s
 hyblyg – flexible
 pren – wood

Dyma Sara Lart

Mae Sarah yn gwneud pethau gyda helyg – fel basgedi ac addurniadau Nadolig.

Mae hi'n byw yng Nghaerdydd ac mae hi'n siarad Cymraeg.

Mae hi'n dysgu pobl eraill sut i wneud pethau o helyg.

Mae pawb yn gallu dysgu sut i wneud pethau o helyg, meddai Sarah.

Mae hi'n hoffi nofio yn y môr ym Mhorthcawl ar Ddydd Nadolig.

Geiriau

helyg – willow
 addurn,-iadau – decoration,-s
 gallu – (to) be able to, can

Nofio Nadolig!

Mae Sarah yn hoffi bod allan yn yr awyr agored. Mae hi'n mwynhau seiclo, cerdded yn y mynyddoedd, nofio a chanwio ar Afon Yealm, yn Nylfaint.

Sut mae hi a'i theulu'n mynd i ddathlu'r Nadolig eleni?

"Dydd Nadolig llynedd aeth grŵp mawr ohonon ni i nofio yn y môr ym Mhorthcawl. Roedd e'n oer iawn! Dyn ni'n mynd i wneud rhywbeth tebyg eto eleni, dw i'n credu.

Mae tua 1,000 o bobl yn mynd i nofio ym Mhorthcawl ar Ddydd Nadolig. Roedd pawb yn gyfeillgar iawn ac roedd e'n ddiwrnod hyfryd."

Os dych chi isie cysylltu â Sarah Lart, anfonwch e-bost at:
Sarah@serenwillow.co.uk

Geiriau

awyr agored – fresh air
 Dyfnaint – Devon
 dathlu – (to) celebrate
 (y) llynedd – last year
 aeth – went
 ohonon ni – of us
 rhywbeth tebyg – something similar
 eleni – this year
 cyfeillgar – friendly
 cysylltu â – (to) contact

Mae lingo newydd yn gofyn i bobl beth maen nhw'n hoffi. Y tro yma, mae Maggi Noggi yn ateb. Brenhines drag ydy Maggi Noggi. Mae Maggi Noggi yn dod o Ynys Môn.

Maggi Noggi Dw i'n hoffi...

Maggi, beth ydy ...?

... eich hoff ffilm

O, mae hwn yn hawdd!
Fy hoff ffilm i ydy **Deliverance**. Mae'r ffilm yn fy atgoffa i o fy ieuenctid yma yn Llanfair Mathafarn Eithaf ar Ynys Môn. Bob tro dw i'n clywed y *Dueling Banjos* – neu unrhyw fanjo – dw i'n cofio am yr 1970au, neu Langefni ar nos Sadwrn. Mae unrhyw ffilm efo'r eicon Burt Reynolds ynddi hi yn un dda yn fy marn i.



... eich hoff lyfr

Does 'na ddim llawer o lyfrau yn ein tŷ ni, ond dw i wrth fy modd efo un clasur yn arbennig – *War and Peace*, dyna i chi lyfr! Mae gen i ddrych ar y bwrdd gwisgo ac mae o'n rhy isel. Mae *War and Peace* yn gwneud job dda iawn yn codi'r drych ryw bum modfedd yn uwch!

... eich hoff ffordd o ymlacio

Siopa, yn enwedig siopa am esgidiau. Dw i'n gallu colli fy hun am oriau! Dw i wastad yn aros i fyny tan ganol y nos ar y we yn prynu esgidiau newydd. Yn anffodus, mae hon yn dasg anodd y dyddiau yma achos mae gen i gasgliad mor anhygoel o esgidiau o bob math.



... eich hoff siop

Wel, mewn gwirionedd does gen i ddim hoff siop. Dw i'n hoffi pob siop sy'n gwerthu jin.



... eich hoff fwyd

Dw i'n bwyta popeth, hyd yn oed y patrwm oddi ar blât! Ond, os oes rhaid dewis un peth, wel, efallai basai'n rhaid i mi ddewis dau beth. Dw i'n hoff iawn o fwyd traddodiadol Cymreig – byrgyrs a cebabs wedi eu gorchuddio mewn sôs coch. O mam bach, iym!

Maggi Noggi, beth ydy ...?

... eich hoff ddillad

Yn anffodus, mae'r cwestiwn yma yn amhosib. Efo'r byd yn llawn lliw, a miloedd ar filoedd o steiliau gwahanol, sut all hogan ddewis? Amhosib. Dyma sut dw i'n edrych ar fywyd – mae'r bydysawd wedi rhoi'r corff arbennig, hyfryd, prydferth yma i mi, felly mae gen i ddyletswydd i'w addurno fo. Dw i wastad yn gweld pobl yn cerdded o gwmpas mewn beige – rargian fawr, be haru nhw 'dwch! Tafwch ychydig o liw dros eich ysgwyddau!

... eich hoff olygfa?

Oes yna olygfa well yn y byd na mynyddoedd Eryri o Ynys Môn? Dw i ddim yn credu! Dim ots be' sy'n digwydd yn fy mywyd, neu pa mor ddigalon ydy pethau ar adegau, mae'r olygfa yna yn ddigon i godi calon a rhoi gorffwys i'r enaid.

O Fferm Noggi, dw i'n gallu gweld mynyddoedd Eifonydd, yr Wyddfa, y Glyderau, a chopar Carneddau i gyd mewn un olygfa. Ar hyn o bryd, maen nhw'n gwisgo côt wen o eira ffres! Mae'r olygfa hon yn dal fy ngwynt a fy sylw bob tro. Coeliwch chi fi, dw i wedi gweld llawer o olygfeydd arbennig dros y byd, ond does dim yn cymharu â hon. Pan dw i ddim yn gweld yr olygfa yma am amser hir, mae hiraeth mawr arna i.

... eich hoff wyliau?

Wel, dw i newydd ddod yn ôl o Unol

Daleithiau America, a dyna i chi wyliau! Es i'r holl ffordd o Efrog Newydd i Orlando i weld – coeliwch neu beidio – llygoden fawr ddu mewn castell! Roedd Nain wedi gwirioni – er, bron iddi hi farw yn y gwres. Roedd hi'n 100 gradd Farenheit bob dydd yno, a'r lleithder yn gant y cant! Fedrwc'h chi goelio hynny? Bob tro roedden ni'n mynd allan o'r *air conditioning* waeth i ni fod o dan ddŵr! Roedd yna olwg ar y gwallt yma!

O, ond am hwyl a sbri – fi a Nain ar y rollercoasters, a'r plant bach i gyd yn meddwl mai fi oedd Snow White. Ches i erioed cymaint o sylw yn fy mywyd. Ond, chwarae teg, dw i a Snow White yn debyg, dw i'n meddwl. Mae isio hwyl weithiau on'd oes? Ac roedd Orlando yn arbennig iawn. Byrgys maint fy mhen, a choctels galore! Ro'n i wrth fy modd.

Geiriau

bydysawd – universe
 dyletswydd – duty
 Rargian fawr! – Goodness!
 be haru nhw? = beth sy'n bod arnyn nhw?
 – what's the matter with them?
 'dwch! = *dwedwch!* – say!
 digalon – depressing
 gorffwys – rest
 enaid – soul
 coeliwch chi fi – believe me
 wedi gwirioni = wrth eu bodd – delighted
 bron iddi hi farw – she almost died
 lleithder – humidity
 waeth i ni fod – we may as well have been

Dyma Maggi Noggi

Brenhines drag ydy Maggi Noggi.

Mae hi'n dod o bentre ar Ynys Môn. Enw'r pentre ydy Llanfair Mathafarn Eithaf.

Mae Maggi yn enwog yng Nghymru.

Mae hi ar y teledu ac mae hi'n gwneud sioeau cabaret hefyd.

Mae Maggi Noggi yn hoffi ... esgidiau (llawer o esgidiau), dillad lliwgar iawn, bwyd 'traddodiadol' (byrgys a cebabs), gwyliau yn Disneyworld yn Orlando, gweld mynyddoedd Eryri o Ynys Môn.

Dydy Maggi ddim yn darllen llawer ond mae hi'n hoffi'r llyfr *War and Peace*. Pam? Mae hi'n rhoi'r llyfr o dan y drych ar ei bwrdd gwisgo. Mae o'n codi'r drych yn uwch.

Geiriau

brenhines – queen
 enwog – famous
 traddodiadol – traditional
 Eryri – Snowdonia
 drych – mirror
 bwrdd gwisgo – dressing table
 yn uwch – higher

Geiriau

atgoffa – (to) remind
 Dyna i chi lyfr! – What a book!
 drych – mirror
 modfedd – inch
 yn uwch – higher
 anhygoel – incredible, awesome, amazing
 mewn gwirionedd – in fact
 hyd yn oed – even
 traddodiadol – traditional
 wedi eu gorchuddio – covered



Mae **Sioe Maggi Noggi** yn gyfres chwe rhan ac mae'n dechrau ar 30 Tachwedd am 9.30pm. Mae pennod ddwbl y Nadolig ar 28 Rhagfyr am 9.30yh.

Geiriau

cyfres chwe rhan – six part series
 pennod – episode

Mae'r newyddion fel sioe gomedi, meddai Sian Harries.
Dych chi'n cofio straeon mawr 2018? Dych chi'n chwervthin?

HA HA HA!

Dyma'r newyddion!

Brexit, Brexit a mwy o Brexit ... protestio yn erbyn Donald Trump yn dod i'r Deyrnas Unedig ... dewis arweinwyr newydd y pleidiau yng Nghymru ... y gwenwyno yn Salisbury ... Harry a Meghan yn priodi – mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur iawn yn y newyddion! Pa straeon dych chi'n cofio?

Sriptiwr comedi ydy Sian Harries. Mae hi a dau ddigrifwr arall – Tudur Owen a Gareth Gwynn – yn ysgrifennu sioe deledu ar gyfer diwedd y flwyddyn. Sioe ddigri am y newyddion ydy **O'r Diwedd 2018**. Mae hi'n edrych yn ôl ar newyddion 2018. Ac, yn ôl Sian Harries, mae'r newyddion fel comedi.

Sian, pa straeon newyddion sy wedi dal eich sylw chi yn ystod y flwyddyn?


Mae yna ormod o newyddion heddiw. Mae'n teimlo fel bod stori enfawr yn torri bob pum munud – Trump yn dweud celwydd, ysbiwyr Rwsiaidd yn dweud, “Dyn ni ddim yn ysbiwyr, dyn ni'n dod draw i weld eglwys yn Salisbury,” – mae'n wallgo!

Dw i'n cofio'r sgandal pan gafodd Paddy Pantsdown [Paddy Ashdown, arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol ar y pryd] ei ddal yn cael affêr, ond nawr mae Trump yn gwneud stwff llawer gwaeth bob dydd.

Oes unrhyw straeon difyr neu ysgafn wedi dal eich sylw chi?

Mae'r newyddion wedi troi'n wledd o gomedi y ddiweddar – Arlywydd yr Unol Daleithiau yn 'backtrackio' am beth mae e'n dweud am Putin [Arlywydd Rwsia] ... yr uffernol Katie Hopkins yn dweud, “Mae'r iaith Gymraeg yn marw” ... ac wedyn adroddiad yn dweud, “Mae mwy o bobl yn siarad Cymraeg”, ... a'r seremoni hollol wirion i ailenwi Pont Hafren yn Bont Tywysog Cymru...

Yn y rhaglen **O'r Diwedd 2018**, mae sgets 'da fi am y broetsys oedd 'da'r Frenhines pan ddaeth Donald Trump i Brydain. Yn ôl pob sôn, roedd negeseuon cyfrinachol yn y broetsys. Yn y sgets, dw i'n rhoi negeseuon brwnt mewn diemwntau ar y broetsys!



Beth sy'n mynd i ddigwydd gyda Brexit?

Does dim syniad 'da fi beth sy'n mynd i ddigwydd – am amser hir ro'n i'n meddwl fyddai fe ddim yn digwydd. Mae'n hollol wallgo' bod ni'n mynd trwodd 'da fe. Dw i ddim yn gallu sgrifennu jôcs am Brexit rhagor achos dw i ddim yn ei ffeindio fe'n ddoniol – mae e'n ddychrynlyd. Mae'n drist uffernol bod cymaint o bobl yn mynd i ddiodef.

Geiriau

yn ôl – *according to*
arweinydd, arweinwyr – *leader, -s*
y gwenwyno – *the poisoning*
celwydd – *lies*
ysbiwr, ysbiwyr – *spy, spies*
gwledd – *feast*
adroddiad – *report*
broets,-ys – *brooch,-es*
yn ôl pob sôn – *apparently*
cyfrinachol – *confidential*
mynd trwodd 'da – *(to) go through with*
dioddef – *(to) suffer*

Ar wahân i Brexit, beth fydd stori fawr 2019?

Mae'n flin 'da fi swnio mor negyddol ond dw i'n credu bydd rhyfel y flwyddyn nesa'. Mae ffsgiaeth yn lledaenu ar draws yr Unol Daleithiau ac ar draws Ewrop; mae Prydain ar fin gwahanu o Ewrop a bydd y trafferthion yng Ngogledd Iwerddon yn dechrau eto. Mae'n amser eitha tywyll, ond mae angen i bobl chwervthin nawr yn fwy nag erioed!

Beth am Gymru? Ydyn ni'n dechrau ar gyfnod newydd cyffrous gyda gwleidyddiaeth? Mae arweinydd newydd 'da llawer o'r pleidiau, ac mae Prif Weinidog newydd hefyd ...

Gyda'r holl lanast sy'n mynd i ddigwydd gyda Brexit, mae angen i'n harweinwyr ni weithio'n galetach nag erioed. Fydd y Toriaid yn San Steffan yn meddwl am anghenion Cymru ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd? Dw i ddim yn credu. Byddwn ni'n cael llawer llai o arian a Duw a wŷr beth sy'n mynd i ddigwydd i'n ffermwyr ni a'n Gwasanaeth Iechyd (NHS) ni.

Ers refferendwm Brexit mae llawer llai o amynedd at ieithoedd lleiafrifol fel y Gymraeg. Yn fwy nag erioed, mae angen i'n gwleidyddion ni ymladd dros hawliau Cymru. Felly, ydw, dw i'n credu bod hwnna'n eitha' cyffrous.

Mae'r sioe **O'r Diwedd 2018** ar S4C ar 27 Rhagfyr.

Geiriau

ar wahân i – *apart from*
ffsgiaeth – *fascism*
lledaenu – *(to) spread*
ar fin – *about to*
gwahanu oddi wrth – *to separate from*
trafferth,-ion – *trouble,-s*
cyfnod – *period*
llanast – *mess*
Duw a wŷr – *God knows*
amynedd – *patience*
ieithoedd lleiafrifol – *minority languages*

2018



DYMA 2018

Dyma rai o straeon mawr Cymru yn 2018. Dych chi'n cofio?

Mis Ionawr – Ryan Giggs yn dod yn rheolwr pêl-droed Cymru. Dewis da?

Mis Ebrill – Swyddfa Cymru yn penderfynu rhoi enw newydd i Ail Bont Hafren. Dydy pawb ddim yn hapus gyda 'Pont Tywysog Cymru'. Dych chi'n hapus gyda'r enw?

Mis Mai – Carwyn Jones, y Prif Weinidog, yn dweud: "Dw i'n mynd; dw i'n ymddeol." Ydy Carwyn Jones wedi gwneud gwaith da?

Mis Gorffennaf – glaw o'r diwedd! Roedd yr haf yn sych iawn. Roedd ffermwyr yn cael llawer o broblemau.

Mis Awst – yr Eisteddfod yng Nghaerdydd yn eisteddfod agored. Syniad da?

Mis Medi – arweinydd newydd Plaid Cymru, Adam Price, yn dweud: "Dyn ni'n anelu am annibyniaeth erbyn 2030!" Beth dych chi'n feddwl?

Mis Hydref – llifogydd mawr. Roedd pethau'n ddrwg iawn yng Ngorllewin Cymru.

Geiriau

- stori, straeon – story, stories
- penderfynu – (to) decide
- ail – second
- Hafren – Severn
- o'r diwedd – at last
- arweinydd – leader
- anelu am – (to) aim for
- annibyniaeth – independence
- llifogydd – floods



2018

2018



Blwyddyn y Môr oedd 2018 yng Nghymru. Nawr, dyn ni'n dechrau ar flwyddyn newydd – a Blwyddyn Darganfod ydy 2019. Felly, mae **lingo newydd** yn chwilio am bethau i'w dargafnod yng Nghymru. Y tro yma, dyn ni'n chwilio am y sêr:

Gweld sêr

Mae 2019 yn Flwyddyn Darganfod. Pwrpas Blwyddyn Darganfod ydy perswadio pobl i ddod i Gymru a rhoi profiadau newydd iddyn nhw – ac i ni hefyd, wrth gwrs. Mae'n gyfle i drïo cynnyrch newydd hefyd.

Dych chi isie cael profiad newydd yn 2019? Dych chi'n hoffi gwylïo'r sêr yn y nos?

Mae angen lle tywyll iawn ac mae llygredd golau yn broblem ond mae rhai lleoedd arbennig yng Nghymru i fynd i edrych ar y sêr ...

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Mae'r awyr yn dywyll iawn yn ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Dyma'r ardal gynta yng Nghymru i gael statws Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol. Ar noson glir, dych chi'n gallu gweld y Llwybr Llaethog a tua 3,000 o sêr. Mae hynny'n fwy nag mewn llawer o ardaloedd eraill yn y Deyrnas Unedig.

Mae Bannau Brycheiniog yn trio lleihau llygredd golau. Mae'n gwneud hyn trwy weithio gyda phobl leol, busnesau ac ymwelwyr. Yr amser gorau i fynd

i edrych ar y sêr ydy rhwng mis Medi a mis Mawrth.

Parc Cenedlaethol Eryri

Parc Cenedlaethol Eryri ydy'r ail ardal yng Nghymru i gael y teitl Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol. Dim ond deuddeg o'r gwarchodfeydd yma sy yn y byd. Ar noson glir yn Eryri, dych chi'n gallu gweld y Llwybr Llaethog, y prif gytserau a sêr gwib.


Mae Eryri isie gwarchod awyr dywyll yr ardal. Hefyd, mae Eryri isie gweithio gyda phartneriaid eraill yng Nghymru i gysylltu'r sêr gyda'n diwylliant ni – gyda straeon fel y Mabinogi a hen benillion. Roedd pobl yn dweud y straeon wrth ei gilydd ac yn canu'r hen benillion.

Arfordir Sir Benfro

Mae arfordir Sir Benfro yn lle da am awyr dywyll hefyd. Mae'n bosib gweld y Llwybr Llaethog a chytserau fel Orïon.

Mae llawer o'r lleoedd gorau i weld y sêr ar hyd yr arfordir.

Weithiau, mae digwyddiadau awyr dywyll arbennig er mwyn i chi i fynd i edrych ar y sêr a gweithgareddau eraill ar ôl iddi hi dywyllu.



Y Seryddwr

Mae Rhys Morris yn seryddwr o Gaerdydd. Mae e'n hoffi gwylïo'r sêr. Yma, mae e'n ateb cwestiynau **lingo newydd**.

Ble mae'r lleoedd gorau i fynd i wylïo'r sêr?

Gallwch chi wylïo'r sêr o unrhyw le, ond dych chi'n gallu gweld yn well o rywle tywyll. Mae nifer o leoedd yng Nghymru lle mae'r awyr yn dywyll iawn, ac mae statws arbennig 'Awyr Dywyll' ganddyn nhw. Mae'r lleoedd yma yn cynnwys Parciau Cenedlaethol Eryri a Bannau Brycheiniog, Cwm Elan ac arfordir Sir Benfro.

Beth dych chi'n gallu gweld o'r lleoedd yma?

Mae'r sêr yn newid bob tymor,

felly mae sêr gwahanol i'w gweld ar adegau gwahanol o'r flwyddyn. Gallwch chi weld pum planed gyda'ch llygaid heb gymorth – ar wahanol amseroedd. Mae'n bosib gweld sêr gwib yn saethu ar draws yr awyr.

Ydyn ni'n tueddu i beidio edrych i fyny ar y sêr a rhyfeddodau'r nos?

Mae pobl sy'n byw mewn dinasoedd yn gweld llai o awyr y nos na phobl sy'n byw yn y wlad oherwydd llygredd golau. Mae creu ardaloedd lle mae'r awyr dywyll yn cael ei gwarchod yn helpu gyda hyn.


Ydy hi'n bwysig dysgu am y sêr a gwybod amdany'n nhw?

Mae gwyddonwyr y sêr, pobl fel Galileo ac Isaac Newton, wedi

Geiriau

darganfod – *discovery, (to) discover*
 chwilio am – *(to) search for*
 cynnyrch – *produce*
 llygredd – *pollution*
 Bannau Brycheiniog – *the Brecon Beacons*
 Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol – *International Dark Sky Reserve*
 y Llwybr Llaethog – *the Milky Way*

cytser,-au – *constellation,-s*
 seren wib, sêr gwib – *shooting star,-s*
 lleihau – *(to) reduce*
 gwarchod – *(to) protect*
 diwylliant – *culture*
 pennill, penillion – *verse,-s*
 arfordir – *coast*
 digwyddiad,-au – *event,-s*



Llun: Crown copyright (2018) Visit Wales

O Gymru i'r gofod

Mae dau ofodwr o dras Cymreig wedi bod i'r gofod: Joe Tanner a Dafydd Rhys Williams.

Aeth y ddau â'r Ddraig Goch i'r gofod gyda nhw.

Roedd mam Joe Tanner yn dod o Landdewi Brefi, yng Ngheredigion, a thad Dafydd Williams yn dod o Fargoed, Cwm Rhymni.

Cyfnither i Joe Tanner ydy Gwyneth Lewis, y bardd.

Treuliodd Joe Tanner fwy na 1,000 o oriau yn y gofod. Cerddodd e yn y gofod am fwy na 40 awr.

Aeth Dafydd â chap rygbi rhyngwladol i'r gofod – un o gapiau chwaraewr gorau Cymru erioed, Gareth Edwards.

Gwelodd Dafydd Williams dristwch hefyd – roedd e'n ffrindiau gyda'r criw ar y llong ofod Columbia pan ffrwydrodd hi.

Geiriau

gofodwr	– astronaut
gofod	– space
tras	– lineage
rhyngwladol	– international
erioed	– ever
treulio	– (to) spend
llong ofod	– spaceship
ffrwydro	– (to) explode



Llun: Nasa

cael dylanwad mawr ar hanes y byd ac ar ein dealltwriaeth o wyddoniaeth. Mae'n bwysig bod pawb yn sylweddoli pa mor fach a dibwys ydy ein daear ni, ond dyma'r unig blaned sy 'da ni, felly mae'n rhaid i ni ofalu amdani hi! Hefyd, yn y tymor hir, y gofod ydy dyfodol y ddynoliaeth.

Oes pethau yn y gofod wedi eu henwi ar ôl pobl o Gymru?

Mae asteroid o'r enw Iwan ac mae nifer o grateri ar y Lleuad wedi eu henwi ar ôl seryddwyr neu bobl lenyddol o

Gymru. Mae dau ofodwr o dras Cymreig wedi mynd i'r gofod, ac mae baner Cymru, cap rygbi Gareth Edwards a Mr Urdd wedi hedfan o amgylch y ddaear mewn llong ofod!

Oes unrhyw straeon am gysylltiad y sêr â Chymru?

Mae'r Mabinogi yn cyfeirio at sêr-ddewiniaid ac mae llyfrau hanesyddol eraill yn sôn am ddigwyddiadau yn awyr y nos. Mae sôn bod pobl yng Nghymru wedi gweld rhai pethau yr un pryd â Galileo, ond Galileo sy'n cael y clod!

Geiriau

seryddwr – astronomer
tueddu i – (to) tend to
rhyfeddod, -au – wonder, -s
dylanwad – influence
sylweddoli – (to) realise
dibwys – insignificant

y ddynoliaeth – the human race
llynyddol – literary
tras – lineage
cyfeirio at – (to) refer to
sêr-ddewin, -iaid – astrologer, -s
cael y clod – (to) get the credit

Gwyllo'r sêr

Dych chi'n hoffi gwyllo'r sêr?

Ble dych chi'n gwyllo'r sêr fel arfer?

Mae rhai lleoedd yng Nghymru yn dywyll iawn ac mae'n bosib gweld y sêr yn glir yno:

- Bannau Brycheiniog
- Eryri
- Arfordir Sir Benfro

Mae statws arbennig 'da Bannau Brycheiniog ac Eryri. Mae'r statws yn dangos, "Mae'r awyr yn dywyll iawn yma".

Mae'n bosib gweld y Llwybr Llaethog a sêr gwib yma.

Os dych chi isie darllen mwy ewch i:
www.discoveryinthedark.wales/cym/home

Geiriau

lle, -oedd – place, -s
tywyll – dark
yn glir – clearly
mae ... "da ... = mae gan ...
– ... has got ...
Bannau Brycheiniog – the Brecon
Beacons
Eryri – Snowdonia

Arfordir Sir Benfro
– the Pembrokeshire Coast
statws – status
dangos – (to) show
y Llwybr Llaethog
– the Milky Way
seren wib, sêr gwib
– shooting star, -s

Mae Sarah Philpott yn figan. Mae hi'n dweud bod llawer o fwyd blasus i figaniaid dros y Nadolig ...

Cinio Nadolig – heb dwrci!

Beth dych chi'n gael i ginio Nadolig? Dych chi'n cael twrci ... neu rywbeth gwahanol? Llysiau efallai? Ond mae hynny'n golygu mwy na letys, meddai Sarah Philpott.


Mae Sarah yn figan ers tua phedair blynedd. Mae hi'n byw yn Abertawe. Mae hi'n blogio am fod yn figan ac mae hi wedi ysgrifennu llyfr newydd, **The Occasional Vegan**.

Mae llawer o syniadau am fwyd blasus figanaidd ar gyfer Dydd Nadolig 'da hi.

“Dw i'n bwyta bwyd figanaidd drwy'r Nadolig. Dydy hyn ddim mor anodd ag oedd e. Mae yna lot o bethau ar gyfer figaniaid yn yr archfarchnad nawr. Llynedd, ces i *nut roast* o'r archfarchnad felly does dim angen i chi wneud dim os does dim amser.”

Ac os dych chi'n hoffi llysiau, mae digon o ddewis.

“Dych chi'n gallu bwyta llawer o lysiau, wrth gwrs, a thatws rhost – heb eu coginio mewn saim anifail. Mae lot o fins peis figanaidd ar gael ac mae caws figanaidd yn yr archfarchnad ... a hufen, siocled a hufen iâ figanaidd. Dydy hi ddim yn anodd os dych chi isie cael bwyd figanaidd yr adeg yma o'r flwyddyn.”



The Occasional Vegan, gan Sarah Philpott, Seren, £12.99
Blog – vegginit.wordpress.com
Veganuary.com

Geiriau

dweud bod – (to) say that
golygu – (to) mean
saim – fat
ar gael – available
adeg – time

Mynd at ffrindiau – problem?

Mae'r Nadolig yn amser i fynd i weld y teulu a ffrindiau. Ydy hi'n anodd bod yn figan os dych chi'n mynd i dŷ rhywun arall am fwyd?

“Weithiau, dw i'n mynd i dŷ rhywun ac maen nhw'n cael darn o gacen a dw i'n cael paned o de. Weithiau, dw i'n mynd â bocs o fins peis figanaidd gyda fi, neu weithiau maen nhw wedi prynu rhywbeth figanaidd hefyd.

“Os dw i'n mynd at y teulu am ginio Nadolig dw i'n gwneud pastai neu *nut roast* a mynd â'r bwyd gyda fi.

“Mae e wedi bod yn brofiad positif. Mae pethau wedi newid lot dros y blynyddoedd diwetha.

Geiriau

haws – easier

Caserol cnau castan a thomatos heulsych

Amser: 1 awr. Faint: Digon i 4. Ffwrn: 200° C

Cynhwysion

Y caserol

- 1 llwy fwrdd o olew olewydd
- 1 winwsyn mawr, wedi ei bilio a'i dorri'n ddisiau
- 2 foronen, wedi eu pilio a'u torri'n ddisiau
- 2 frigyn o seleri, heb y dail, wedi eu torri'n ddisiau
- 2 ewin o garlleg, wedi eu pilio a'u torri'n fân
- 200g o gnau castan (ffres neu o baced), wedi eu haneru
- ½ jar 285g o domatos heulsych, heb yr olew ac wedi eu torri
- 2 afal, heb y canol, wedi eu torri'n ddisiau
- 1 llwy de o rosmari ffres, wedi ei dorri
- 2 lwy de o deim ffres, wedi ei dorri
- 2 dun 400g o domatos
- 2 lwy de o biwrî tomato
- 1 llwy de o Marmite
- 2 lond llaw o ddail cêl, heb y coesynnau

Ar gyfer y topin

- 2 daten felys, wedi eu pilio a'u torri'n ddisiau
- 1 llwy de o sinamon
- Ychydig o nytmeg
- 1 llwy de o surop masarn
- Halen a phupur
- 1 llwy fwrdd o olew cnau coco neu olew olewydd
- 2 lond llaw o gnau pecan

Dull

1. Rhowch y winwsyn a'r olew mewn dysgl caserol fawr dros wres canolig. Coginiwch am 2 funud.
2. Ychwanegwch y moron, y

seleri a'r garlleg a choginiwch am 2 funud arall nes bod y llysiau yn dechrau meddal.

3. Ychwanegwch y cnau castan, y tomatos heulsych, yr afalau, y rhosmari a'r teim ac yna'r tomatos, y piwrî tomatos a'r Marmite a chymysgwch. Rhowch gaead ar y sosban, trowch y gwres i lawr a choginiwch am 20 munud. Trowch gyda llwy bren bob hyn a hyn.

4. Yn y cyfamser, berwch y tatws melys am 15-20 munud. Yna, ar ôl cael gwared â'r dŵr, ychwanegwch y surop masarn, yr olew, y sinamon a'r nytmeg a

Figan am fis?

Mae lonawr yn fis *Veganuary* ac mae hyn yn annog pobl i droio bod yn figan am fis. Cyngor Sarah Philpott ydy: "Mae'n well dechrau'n ara' deg."

Dydy bwyta bwyd figanaidd ddim fel bod ar ddietydd, meddai Sarah.

"Does dim rhaid i chi fwyta bwyd cwningen! Pan mae'n dywyll ac yn oer tu fas, mae digon o *comfort food* ar gael sy'n figanaidd. Dych chi'n gallu gwneud *spaghetti carbonara* gyda blodfresych a llaeth almon – Mae'n gwneud saws hyfryd.

Geiriau

yn ara' deg – *slowly*
tu fas = tu allan – *outside*
tato pwtsh = *tatws stwnsh –*
mashed potato
dychymyg – *imagination*
pwysau – *pressure*

"Mae digon o bethau yn y siopau hefyd – fel selsig wedi'u gwneud o lysiau neu fadarch. Maen nhw'n union fel selsig go iawn. Gallwch chi gael y rheiny gyda thato pwtsh.

"Peidiwch â rhoi gormod o bwysau arnoch chi'ch hun. Mae'n well trio bod yn figan yn ara' deg a newid ambell beth. Gallwch chi newid llaeth buwch a chael llaeth almon neu soia yn lle. Gwnewch newidiadau bach ac arbrowfch gyda gwahanol fwydydd.

"Mae'r rhan fwyaf o bobl figan yn gyfeillgar – does neb yn mynd i weiddi os dych chi'n bwyta caws drwy ddamwain! Ac mae'n bwysig cael ychydig bach o hwyl!"

ambell beth – *one or two things*
yn lle – *instead*
arbrofi – *(to) experiment*
ysbrydoliaeth – *inspiration*

Dyma Sarah Philpott

Mae Sarah Philpott yn figan. Mae hi'n byw yn Abertawe. Mae hi'n figan ers pedair blynedd. Mae hi'n blogio am fod yn figan ac mae hi wedi ysgrifennu llyfr, **The Occasional Vegan**.

Mae llawer o fwyd figan blasus dros y Nadolig, meddai Sarah. I rai pobl, mis lonawr ydy *Veganuary* – maen nhw'n bwyta bwyd figan am fis. Beth ydy cyngor Sarah? Dechrau'n araf – newid rhai pethau bach i ddechrau.

Geiriau

ers – *since, for*
pedair blynedd – *four years*
wedi ysgrifennu – *has written*
am fod – *about being*

i rai pobl – *for some people*
cyngor – *advice*
rhai – *some*

stwnsiwch nhw.

5. Ychwanegwch y cêl at y caserol. Coginiwch am 10 munud arall nes bod y cêl wedi gwywo. Rhowch flas gyda'r halen a phupur.

6. Rhowch y stwnsh tatws ar ben y caserol. Gratiwch

y nytmeg dros y tatws ac ychwanegwch y cnau pecan a mwy o sinamon.

7. Rhowch gaead ar y caserol. Rhowch bopeth yn y ffwrn a choginiwch am 10-15 munud nes bod y cnau pecan wedi tostio ychydig.

Geiriau

cneuen gastan, cnau castan – *chestnut,-s*
surop masarn – *maple syrup*
bob hyn a hyn – *occasionally,*
every now and then

yn y cyfamser – *in the meantime*
stwnsh – *mash*
wedi gwywo – *wilted*
rhoi blas – *(to) season*
caead – *lid*

Y Sêr gyda Chris Needs



YR HWRDD

Mae'n bryd cael tipyn o newid. Mae pethau yn y gwaith yn eich poeni chi efallai. Dywedwch wrth eich rheolwr, "Dw i isie trio rhywbeth newydd." Mae'n gyfle da i chi.



Y TARW

Mae'n bryd eistedd gyda rhywun a thrio datrys problemau neu sefyllfa anodd. Peidiwch â gadael pethau fel maen nhw. Byddwch yn onest gyda'r person. Bydd pethau'n gwella wedyn.



YR EFEILLIAID

Dych chi mor brysur dych chi ddim yn gweld y bobl o'ch cwmpas chi – y teulu, er enghraifft. Mae angen cymryd yr amser i siarad gyda nhw. Ewch â nhw am bryd o fwyd neu i weld sioe.



Y CRANC

Dych chi'n gallu diflasu'n hawdd felly mae angen antur neu berson newydd yn eich bywyd. Penderfynwch beth dych chi isie ac ewch amdani. Os dych chi'n rhannu cyfrinachau, byddwch yn ofalus gyda phwy.



Y LLEW

Mae llythyr yn dod ag arian i chi. Byddwch yn ofalus a darllenwch y print mân nifer o weithiau. Cadwch ychydig o'r arian – bydd angen car neu gyfrifiadur newydd efallai.



Y FORWYN

Mae llawer o bobl yn eich caru chi ond mae'n gallu bod yn anodd weithiau. Byddwch yn ofalus wrth siarad gyda phobl am arian. Mae rhywun yn genfigennus efallai.



Y GLORIAN

Dych chi'n berson caredig iawn – a dych chi'n hoffi teithio ond peidiwch â thalu am bopeth. Rhowch eich hun yn gyntaf. Mae'n hawdd gwario arian ond mae'n anodd cael yr arian yn ôl.



Y SGORPION

Dych chi angen gwyliau? Os felly, codwch eich pac ac ewch i gael brêc. Mae neges o'r dwyrain yn dod â lot o hapusrwydd. Mwynhewch!



Y SAETHWR

Bydd person newydd yn eich bywyd chi efallai. Mae angen gweithio llai a mwynhau ychydig mwy. Mae angen i chi edrych yn ofalus ar eich biliau – efallai bod un heb ei dalu.



Y RAFR

Mae rhywun yn eich colli chi ond dych chi ddim yn sylweddoli. Peidiwch â rhuthro i mewn – gadewch iddyn nhw ddod atoch chi. Byddwch chi mewn sefyllfa well i gael beth dych chi isie wedyn.



Y CARIWR DŴR

Mae rhywun yn trio dweud rhywbeth wrthoch chi efallai. Gwrandewch yn ofalus. Gallwch chi helpu'r person yma. Peidiwch â gwrando ar glecs.



Y PYSGODYN

Dych chi'n dda iawn am edrych ar ôl eich hunan. Mae pobl yn dibynnu arnoch chi. Dych chi'n eu cadw nhw i fynd ac yn rhoi gwên ar eu hwyneb. Defnyddiwch eich talent yn ddoeth.



Geiriau

mae'n bryd ...
– *it's time (to) ...*
cyfle – *opportunity*
datrys – *(to) solve*
sefyllfa – *situation*
gwella – *(to) improve*
o'ch cwmpas chi
– *around you*
antur – *adventure*
rhannu – *(to) share*
cyfrinach,-au – *secret,-s*
mân – *fine*
cenfigennus – *jealous*
colli = methu – *(to) miss*
sylweddoli – *(to) realize*
rhuthro – *(to) rush*
clecs – *gossip*
yn ddoeth – *wisely*

Mae Dylan Lloyd-Davies Jones yn ddringwr. Mae o'n dŵad o Ddinbych. Rŵan, mae o'n byw yn yr Alpau, yn Ffrainc.



Dros y byd

Byw yn y mynyddoedd

Faint ydy'ch oed chi?:

Dw i'n 28 oed.

O le dach chi'n dŵad yn wreiddiol?

Dw i'n dŵad o Ddinbych yn wreiddiol.

Lle aethoch chi i'r ysgol?

Es i i Ysgol Gynradd Twm o'r Nant yn Ninbych ac yna i Ysgol Uwchradd Glan Clwyd, yn Llanelwy. Mi wnes i orffen fy addysg ar ôl bod yn yr ysgol uwchradd.

Ers faint dach chi'n byw yn yr Alpau?

Dw i'n byw yma ers tua phedair blynedd.

Pa fath o fwyd dach chi'n mwynhau yn yr Alpau?

Fel arfer, dw i'n trio bwyta lot o lysiau a llai o bethau fel caws a chig. Dan ni'n gwneud bwyd organig a llysieuol. Dan ni'n trio tyfu ein llysiau ein hunain a dan ni'n defnyddio cynnyrch lleol. Dw i'n hoffi cadw fy mhwydau i lawr er mwyn gallu dringo'n galed a chadw'n heini.

Be' dach chi'n hoffi am yr Alpau?

Mae llawer o harddwch a phethau i wneud yn agos i le dw i'n byw. Does gen i ddim llawer o ddi-ddordeb mewn mynd i unrhyw le sy'n bell o fy nghartref. Mae llwybrau cerdded a dringo gwych ar garreg y drws.

Geiriau

dŵad = dod – (to) come
tyfu – (to) grow
cynnyrch – produce
pwysau – weight
unrhyw – any
sy'n bell – that's far
llwybr,-au – path,-s
carreg y drws – doorstep

Pam dach chi'n byw yn yr Alpau?

Ro'n i wedi bod yn breuddwydio am symud i'r Alpau i fyw ers 2012. Ro'n i wedi gweld yr ardal lle dw i'n byw rŵan, sef Pays des Ecrins. Mi wnes i syrthio mewn cariad efo ansawdd y dringo a'r sgïo, harddwch naturiol yr ardaloedd a'r tywydd anhygoel. Ro'n i isio byw gweddill fy mywyd yma.

Yna, mi ges i gyfle i symud i'r Alpau i weithio.

Dw i a Louise, fy nghariad, sy'n athrawes ioga, yn cynnig gwyliau yn yr Alpau. Mae pobl yn gallu dod yma i ddringo, gwneud ioga a gweithgareddau eraill fel cerdded, caicio a bwyta'n iach. Dan ni isio rhoi'r cyfle i bobl ddianc rhag eu bywydau prysur, ymlacio a chael hwyl a gwella eu sgiliau dringo a ioga.

Be' dach chi'n gollu am Gymru?

Yr unig bethau dw i'n colli o adre ydy fy nheulu, fy ffrindiau a'r diwylliant – a dw i'n colli cael y cyfle am sgwrs yn iaith y nefoedd [Cymraeg, wrth gwrs!]. Dw i wedi siomi bod fy Nghymraeg wedi mynd yn rhydlyd ac yn llai a llai rhugl dros y blynyddoedd. Ond, yn sicr, dw i ddim yn colli'r tywydd yng Nghymru!

Geiriau

ansawdd – quality
gweddill – rest, remainder
dianc rhag – (to) escape from
diwylliant – culture
nefoedd – heaven
wedi siomi – disappointed
rhydlyd – rusty

Dyma Dylan

Be' ydy'ch enw chi?

Fy enw i ydy Dylan Lloyd-Davies Jones.

Be' ydy'ch gwaith chi?

Dringwr ydw i.

Lle dach chi'n byw?

Dw i'n byw yn yr Alpau, yn Ffrainc,

ond dw i'n dod o Ddinbych yn wreiddiol.

Dach chi'n hoffi'r Alpau?

Ydw. Dw i'n hoffi'r dringo a'r sgïo, yr harddwch naturiol a'r tywydd braf.

Dach chi'n colli Cymru?

Dw i'n colli fy nheulu a siarad Cymraeg – ond dw i ddim yn colli'r tywydd yng Nghymru!

Geiriau

harddwch
naturiol
– natural beauty
colli = methu
– (to) miss



Carw Llychlyn (Rangifer tarandus)

Dach chi wedi sgwennu at Siôn Corn eto? Naddo?

Wel, mi fydd yn Noswyl Nadolig cyn bo hir ac, wrth gwrs, mae Siôn Corn wedi bod yn brysur ers wythnosau yn paratoi'r ceirw.


Ceirw Siôn Corn ydy un enw ar yr anifeiliaid yma ond ceirw Llychlyn ydy'r enw cywir. *Rangifer tarandus* ydy'r enw gwyddonol a *reindeer* yn Saesneg.

Mamal ydy carw Llychlyn ac mae'n anifail hardd ac urddasol iawn. Mae gan y gwryw a'r fenyw gyrn. Mae cynn y fenyw yn llai na chyrn y gwryw. Mae'r cynn yn tyfu ar ddwy ochr y pen ac maen nhw'n tyfu ymlaen uwchben y trwyn. Maen nhw'n edrych yn debyg i law fawr.

Mae côt y ceirw yn frown yn yr haf ac yn llwyd yn y gaeaf, ac mae gynnyn nhw ffwr gwyn ar eu cynffon.

Geiriau

sgwennu	urddasol – dignified,
= ysgrifennu	stately
– (to) write	gwryw – male
carw, ceirw Llychlyn	benyw – female
– reindeer	corn, cynn – horn,-s



Y buchod yn ben!

Maen nhw'n cadw at ei gilydd mewn gyr. Oed a rhyw sy'n penderfynu pwy sy ar y blaen. Fel arfer, y carw gwryw hynaf a'r mwyaf sy ar y blaen yn ystod yr amser paru a rhidio yn yr hydref. Y lloi sy yn y cefn.

Mae'r teirw yn gwneud sŵn mawr pan maen nhw'n rhidio ac maen nhw'n taro'r llawr efo'u carnau. Maen nhw'n ysgwyd eu cynn yn fygythiol. Dydyn nhw ddim isio gweld carw arall yn dod yn rhy agos atyn nhw. Mae pob tarw yn paru efo llawer o fuchod.

Yn ystod y gaeaf, y benywod – y buchod – sy'n ben. Mae'r gwrywod – y teirw – yn colli eu cynn yn fuan iawn ar ôl paru. Mae'r benywod yn cadw eu cynn nhw tan y gwanwyn wedyn. Felly, yn ystod yr amser yma, mae'r buchod yn gallu grru'r teirw i ffwrdd.

Mae'r ceirw'n defnyddio eu carnau er mwyn clirio darn o dir. Yna, maen nhw'n gallu bwyta'r cen sy'n tyfu yno. Cen y ceirw (*Cladonia*;

Reindeer moss) ydy enw hwn.

Mae'r fuwch yn cael ei llo yn ystod mis Mai neu fis Mehefin. Awr ar ôl cael ei eni, mae'r llo bach yn sefyll ar ei draed.

Os dach chi isio gweld ceirw Llychlyn yn eu cynefin, rhaid i chi deithio i Ogledd Sgandinafia, Svalbard, Rwsia, Alasga, Canada neu'r Ynys Las. Maen nhw'n gallu byw yn nes at Begwn y Gogledd na'r un carw arall.

Dim rhyfedd mai nhw ydy ceirw Siôn Corn!

Geiriau

buchod – cows
yn ben – boss
gyr – herd
paru – (to) mate
rhidio – rutting, (to) rut
llo,-i – calf, calves
carn,-au – hoof, hooves
yn fygythiol – threateningly, menacingly
cen – lichen
cynefin – habitat
yr Ynys Las – Greenland

Carw Llychlyn Siôn Corn

- Dyma garw Siôn Corn.
- Mamal ydy o.
- Mae'n byw yn agos at Begwn y Gogledd.
- Mae gan y gwryw a'r fenyw gyrn.
- Mae cynn y fenyw yn llai na chyrn y gwryw.
- Ond, yn y gaeaf, mae'r gwryw yn colli ei gyrn.
- Yn y gaeaf, y fenyw ydy'r bos!

Geiriau

carw Llychlyn – reindeer
agos – near
Pegwn y Gogledd – the North Pole
Mae gan ... = Mae ... 'da ...
– ... has got ...
gwryw – male
benyw – female
corn, cynn – horn,-s
llai na – smaller than
y gaeaf – winter
colli – (to) lose

Pluen Eira ydy ffilm fawr y Nadolig ar S4C. Mae'n stori am fachgen – a thwrci.

Y twrci a'r teulu newydd

Dych chi'n hoffi gwylïo ffilmiau dros y Nadolig?

Pa fath o ffilmiau dych chi'n hoffi?

Rhai sy'n gwneud i chi chwerthin... neu grio ... neu'r ddau!?

Y Nadolig yma, mae S4C yn dangos ffilm i'r teulu i gyd.

Stori am fachgen o'r enw Frank ydy **Pluen Eira**.

Mae Frank yn cael ei fabwysiadu gan gwpl yng Nghaerdydd ac, ar y dechrau, dydy Frank ddim yn setlo'n dda iawn gyda'i rieni newydd. Yr unig beth mae Frank yn hoffi ydy comics. Mae e'n mynd â nhw i bob man.

Yna, mae'r teulu'n mynd i fferm Mam-gu a Tad-cu ar gyfer y Nadolig. Trychineb!

I ddechrau, mae Frank yn cwrdd â'i gyfnither newydd, Mia. Dydy Frank ddim yn meddwl llawer o Mia.

Yn ail, mae ei dad newydd yn anghofio'r comics.

Wedyn mae pethau'n gwella.

I ddechrau, mae Frank yn rhedeg i'r sied, ble mae e'n dod o hyd i ffrind bach newydd – twrci. Mae e'n rhoi enw i'r twrci – Aden.

Yn ail, mae Mia a Frank yn dod yn ffrindiau. Mae Mia yn dweud wrth Frank am wneud ei gomics ei hun. Mae e'n creu arwr anhygoel o'r enw Pluen Eira ac mae'r arwr yn dod yn fyw.

Yna, trychineb arall!

Mae perchennog Aden isie mynd â'r twrci at y cigydd. Ydy Frank a Mia yn gallu achub Aden? Ydy Frank yn setlo gyda'i deulu newydd?

Rhaid i chi wylïo i weld!

Geiriau

mabwysiadu – (to) adopt
pob man – everywhere
trychineb – disaster
gwella – (to) improve
dod o hyd i – (to) find
arwr – hero
anhygoel – amazing, awesome, incredible
achub – (to) save



Yr awdur

Awdur sgript **Pluen Eira** ydy Rob Evans, sy'n byw yng Nghaerdydd, ac mae'r stori'n codi o'i brofiad e ei hun.

Mae e a'i bartner wedi mabwysiadu bachgen bach, Doug, a dyna o ble daeth y syniad ar gyfer **Pluen Eira**.

"Wnes i ddefnyddio fy mhrofiadau i greu'r sgript," meddai Rob Evans. "Mae llawer o fy mhrosiectau ysgrifennu i'n sôn am blant sy'n cael eu mabwysiadu.

"Mae Doug yn chwech oed erbyn hyn ac mae e'n llawn cyffro am y Nadolig – mae e'n methu aros!"

Y peth arall sy'n debyg rhwng y ffilm a bywyd Rob Evans ydy comics.

"Dw i'n dipyn o comic nerd," meddai. "Dw i wrth fy modd gyda chomics fel Batman a Superman – y rhai traddodiadol. Mae llawer o gomics 'da fi yn yr atig a dw i'n trio cael Doug i'w darllen nhw ond does

dim lot o ddi-ddordeb 'da fe!"

Dydy Doug ddim wedi gweld y ffilm eto. Mae'r teulu'n mynd i'w gwylïo hi gyda'i gilydd adeg y Nadolig.

"Roedden ni isie creu rhywbeth oedd yn hudol, gydag ychydig o antur hefyd," meddai Rob. "Plentyn yr 80au ydw i, felly dw i'n dwlu ar ffilmiau fel **E.T.**

"Mae **Pluen Eira** yn ffilm i'r teulu i gyd. Mae pobl yn teimlo dros Frank – mae e'n fachgen trist ac unig – ond mae e'n dod i hoffi ei deulu newydd yn y diwedd."

Geiriau

hudol – magical
antur – adventure
dwlu ar = gwirioni ar – (to) be mad about

Twrci talentog!

Mae Rob Evans yn ysgrifennu sgriptiau ers 15 mlynedd. Ysgrifennodd e'r sgript ar gyfer **Pluen Eira** yn Saesneg.

"Dw i wedi trio dysgu Cymraeg ond dw i'n ofnadwy gydag ieithoedd. Yn ffodus, mae fy mhartner i'n rhugl yn y Gymraeg. Darllennodd e'r fersiwn Saesneg a Chymraeg ac roedd e'n synnu bod y steil a'r hiwmor wedi aros yr un peth.

"Mae'n hyfryd gweld sgriptiau'n dod yn fyw. Mae cymaint o haenau i'r ffilm yma – mae rhan ohoni hi wedi ei hanimeiddio, mae yna gomedi a pathos.

"Mae'r actorion yn **Pluen Eira** yn ardderchog hefyd – mae'r ddau sy'n chwarae Frank a Mia yn blant talentog iawn. Roedd hyd yn oed y twrci yn dalentog hefyd! Mae e fel E.T., dych chi'n ei hoffi e'n fawr."

Pan oedd Rob yn ysgrifennu **Pluen Eira**, roedd e hefyd yn ysgrifennu sioe i blant am gi sy'n siarad, **Waffle the Wonder Dog** [sy ar BBC iPlayer], ac yn sgriptio ar gyfer **EastEnders**.

"Dyna'r peth hyfryd am ysgrifennu – mae rhywbeth gwahanol bob dydd. Mae jest rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod chi'n mynd dan groen y cymeriadau ac yn cael eu lleisiau

nhw i gyd yn iawn."

Mae Rob yn gweithio ar brosiect gyda Julia Donaldson hefyd. Mae hi'n awdur llyfrau plant fel **The Gruffalo**, **Room on the Broom** a **Stick Man**, ond dydy e ddim yn cael dweud beth ydy'r prosiect ar hyn o bryd!

Mae **Pluen Eira** ar S4C nos Nadolig, 25 Rhagfyr, am 6.30pm.

Geiriau

synnu – (to) be surprised
yr un peth – the same
haen,-au – layer,-s
hyd yn oed – even
cael – to be allowed to

Dyma Pluen Eira

Pluen Eira ydy ffilm fawr y Nadolig ar S4C.

Yn y stori, mae bachgen o'r enw Frank ac mae e wedi cael ei fabwysiadu.

Dydy e ddim yn hapus iawn gyda'i rieni newydd.

Mae e'n hoffi comics.

Mae e'n mynd i fferm Mam-gu a Tad-cu am y Nadolig.

Mae Frank yn cwrdd â'i gyfnither newydd, Mia.

Dydy Frank ddim yn hapus – mae ei Dad wedi anghofio ei gomics.

Mae Frank yn rhedeg i'r sied ac mae e'n gweld twrci yno.

Mae Frank yn dod yn ffrindiau gyda'r twrci.

Ond mae perchennog y twrci isie mynd â'r twrci at y cigydd.

Ydy Frank yn gallu achub y twrci?

Geiriau

mae e wedi cael ei fabwysiadu – *he has been adopted*

Mam-gu = Nain – Granny

Tad-cu – Taid – Grandad

cwrdd â = *cyfarfod â* – (to) meet

cyfnither – *cousin (female)*

wedi anghofio – *has forgotten*

perchennog – *owner*

achub – (to) save



Dyma Rob Evans

Mae Rob Evans yn byw yng Nghaerdydd.

Mae e'n ysgrifennu sgriptiau ar gyfer sioeau teledu, e.e. sgriptiau ar gyfer sioeau fel **Stella** gyda Ruth Jones, **The Edge of Heaven** gyda Miranda Hart ac **EastEnders**.

Mae e a'i bartner wedi mabwysiadu mab, Doug.

Roedd hynny'n help i ysgrifennu'r ffilm **Pluen Eira**.

Mae Rob Evans yn hoffi comics – fel Frank yn y ffilm.

Geiriau

ar gyfer – *for*

Priodi mewn chwarel

Rhaglen deledu ydy **Priodas Pum Mil**. Mae'n helpu cyplau i drefnu eu priodas am £5,000 ... ond ble fydd y cyplau'n priodi yn 2019?

Dach chi'n hoffi mynd i briodas ... neu ... dach chi'n trefnu priodas yn 2019, efallai?

Wel, mae'r gyfres **Priodas Pum Mil** ar y teledu yn y Flwyddyn Newydd eto.

Mae'r gyfres yn helpu cyplau i drefnu priodas am £5,000.

Pwy sy'n trefnu'r briodas?

Teulu a ffrindiau'r cyplau!

Mae'r cyflwynwyr,

Emma Walford a Trystan Ellis-Morris, yn helpu hefyd.

Mae'r teulu a'r ffrindiau

yn dewis y ffrog, y car,

y bwyd, a'r adloniant.

Gwaith peryglus!



Geiriau

chwarel – *quarry*

priodas,-au – *wedding,-s*

trefnu – (to) *organize*

cwpl, cyplau – *couples*

ble fydd ...? – *where*

will ...be?

cyfres – *series*

cyflwynydd,

cyflwynwyr –

presenter,-s

adloniant –

entertainment

peryglus – *dangerous*



Y tro hwn, mae **Priodas Pum Mil** yn trefnu priodas mewn gwlad bell am y tro cynta. Mae cwpl arall yn priodi ar drên a chwpl arall ar draeth ... ac mae un cwpl yn priodi o dan y ddaear!

Lola a Lee Rowlands o Flaenau Ffestiniog ydyn nhw. Mae'r briodas yn digwydd yng Ngheudyllau Llechwedd.

"Mae'r lleoliad yn bwysig iawn i ni," meddai Lola. Mae hi'n hyfforddi mewn gwaith cymdeithasol ond mae gan deulu Lola gysylltiad agos efo'r diwydiant llechi.

Mae gan y cwpl dri o blant. Mae Gethin yn saith oed a'r efeilliaid, Catrin a Teleri, yn bedair oed.

Mae Lola a Lee yn gwario eu pres i gyd ar y plant. Felly, penderfynodd Lola ofyn i **Priodas Pum Mil** drefnu eu priodas – ond ddwedodd hi ddim byd wrth Lee!

"Doedd dim pres i wario ar briodas," meddai Lola. Perswadiodd ei ffrindiau hi i gysylltu â **Priodas Pum Mil** ac felly dyna beth wnaeth hi.

Mam Lola ac wyth o'i ffrindiau oedd yn trefnu'r briodas. Roedd gadael i rywun

arall drefnu'r briodas braidd yn od, ond meddai Lola, "Roedd gen i *scrapbook* bach efo syniadau gwahanol – felly roedd gynnyn nhw ryw syniad o be' o'n ni isio."

Mae Lola a Lee wedi priodi erbyn hyn ac maen nhw'n edrych ymlaen at weld y rhaglen. Maen nhw'n mynd i gael parti yn y clwb rygbi lleol i wlyio'r rhaglen gyda'u teulu a'u ffrindiau.

Geiriau

y ddaear – *the ground*

ceudwll, ceudyllau – *cavern,-s*

lleoliad – *venue, location*

hyfforddi – (to) *train*

gwaith cymdeithasol – *social work*

cysylltiad – *link, connection*

diwydiant llechi – *slate industry*

gefail, gefeilliaid – *twin,-s*

pres = *arian* – *money*

trefniadau – *arrangements*

braidd yn od – *rather strange*

erbyn hyn – *by now*


Priodas Pum Mil – Bydd y rhaglen gyntaf ar Ionawr 8, 2019 am 8pm ar S4C.

Dych chi'n hoffi darllen? Ydy'ch ffrindiau chi'n hoffi darllen? Mae Debora Morgante yn byw yn yr Eidal. Mae hi'n hoffi darllen llyfrau Cymraeg ac mae hi'n hoffi rhoi llyfrau fel anrhegion Nadolig.

Llyfrau'r Nadolig



Dewis Debora



Llyfrau Nadolig Debora

Harri Potter a Maen yr Athronydd – mae Debora yn ffan mawr o Harri Potter. Mae'n bosib darllen y nofel gyntaf yn Gymraeg.

Cyfres Hanes Atgas – cyfres ddoniol iawn os dych chi isie dysgu hanes Prydain a Chymru. Mae'n gwneud i Debora chwervin.

Pob nofel gan Roald Dahl – dych chi'n siŵr o fwynhau llyfrau'r awdur yma. Roedd teulu Roald Dahl yn byw yng Nghaerdydd

Y Mabinogi/Y Brenin Arthur – fersiwn modern o chwedlau Cymru, gan Gwyn Thomas – roedd e'n fardd enwog iawn. Mae lluniau hardd mewn llawer o'r llyfrau.

Geiriau

atgas – *horrible*
 cyfres – *series*
 chwervin – *(to) laugh*
 chwedl,-au – *legend,-s*
 bardd – *poet*
 enwog – *famous*

Pan dw i'n meddwl am anrheg Nadolig dw i'n meddwl am rywbeth sy'n gwneud i fi deimlo fel plentyn, am rywbeth bach sy'n gallu cyffwrdd â fy nghalon ac sy'n gwneud i fi freuddwydio.

Does dim anrheg well na llyfr – nid llyfr digidol, ond llyfr go iawn a thudalennau papur!

Dw i'n hoffi arogl papur ac inc! Dw i'n hoffi llyfrau ail-law hefyd, llyfrau sy â'u hanes eu hunain, yn ogystal â beth sy wedi cael ei argraffu arny'n nhw, llyfrau sy wedi cael eu pasio o law i law ac sy wedi teithio'r byd gyda'r darllenwyr.

Mae rhai llyfrau dw i'n hoffi eu cadw i'w darllen eto ac mae rhai llyfrau dw i'n hoffi eu rhoi i bobl eraill. Mae casgliad o lyfrau Cymraeg 'da fi ac mae'n tyfu'n gyflym. Weithiau, rhaid i fi roi rhai ohony'n nhw i bobl achos does dim digon o le yn y tŷ i'w cadw nhw i gyd.

Mae llyfrau'n gwneud anrhegion perffaith.

Geiriau

cyffwrdd â – *(to) touch*
 sy â – *that have*
 argraffu – *(to) print*

Anrhegion Nadolig

Dyma'r llyfrau Cymraeg hoffwn i argymhell fel anrheg Nadolig arbennig:

Harri Potter a Maen yr Athronydd: dw i'n ffan mawr o Harri Potter. Dyma'r llyfr cyntaf yn y gyfres. Mae Harri Potter yn boblogaidd iawn ac mae'n bosib darllen y llyfrau mewn llawer iawn o ieithoedd. Yn anffodus, dim ond y llyfr cyntaf sy yn Gymraeg ond mae'n wych i blant o bob oed.

Cyfres Hanes Atgas: dyma gyfres ddoniol iawn i bawb sy isie

dysgu hanes y Deyrnas Unedig – a Chymru – a mwynhau eu hunain. Mae'n anodd peidio chwervin ond mae'n ymarfer da iawn ar gyfer eich Cymraeg hefyd. Mae'r lluniau'n help mawr i ddeall y cynnwys.

Pob nofel gan Roald Dahl: mae Roald Dahl yn awdur enwog iawn, wrth gwrs. Cafodd e ei eni yng Nghymru i rieni Norwyaidd. Mae llawer o'i nofelau yn ffilmiau hefyd (**Charlie a'r Ffatri Siocled, Matilda**) ac mae pob un o'i nofelau ar gael yn y Gymraeg. Mae pob un o nofelau Roald



Dahl yn addas i bawb ac mae'r iaith yn llifo. Dych chi'n siŵr o gael oriau melys wrth eu darllen nhw.

Y Mabinogi/Y Brenin Arthur: Os oes diddordeb 'da chi mewn chwedlau Cymru, dyma gyfres fendigedig gan Gwyn Thomas. Mae'n hysbysu i blant ac oedolion. Dydy'r iaith ddim yn rhy syml ac mae'r lluniau'n wych. Yn fy marn i, dyma'r addasiad gorau o'r Mabinogi a hanes y Brenin Arthur yn Gymraeg.

Gobeithio bydd y syniadau hyn yn eich helpu chi. Os dych chi'n dod o hyd i lyfr sy'n cynhesu'ch calon, ar ôl i chi ei ddarllen e, rhowch e i ffrind, trafodwch y stori a rhannwch eich teimladau – a chofiwch wneud popeth yn Gymraeg!


Nadolig Llawn i chi i gyd!

Geiriau

argymhell – *(to) recommend*
 atgas – *horrible*
 cynnwys – *content*
 addas – *suitable*
 llifo – *(to) flow*
 awr, oriau – *hour,-s*
 addasiad – *adaptation*

Croesair

Mae rhai o'r atebion yn y rhifyn yma o **lingo newydd**.



Ar draws

4. Dim un person o gwbl. (3)
6. Y mynyddoedd lle mae Dylan Lloyd-Davies Jones yn byw. (2, 5)
7. Un o anrhegion y Doethion. (3)
8. Dych chi'n gwneud hyn yn 14 i lawr. (4)
10. Mae hwn yn y grât. (3)
11. Aw! Mae'r rhain ar ddail y celyn. (5)
13. Aderyn gyda bron goch. (5)
16. Dw i ddim yn hollol siŵr, dw i'n _____. (4)
17. Gwraig y ceiliog. (3)
18. Yr un reit ar y diwedd, does dim mwy!
Yr un _____. (4)

I lawr

1. Ddim yn gyflym. (4)
2. Dych chi'n glynu pethau gyda hwn. (4)
3. _____ Llawen! (7)
5. Dych chi'n gwneud saws gyda hwn – i fynd gyda 10 i lawr. (4)
9. Rhaglen deledu: 'Dechrau canu, dechrau _____'. (6)
10. Testun ffilm S4C ac aderyn y bwrdd Nadolig. (5)
12. Y mwyaf du. (4)
14. Mae hwn mewn tafarn. (3)
15. Lle mae'r angylion yn byw? (3)

Geiriau

- bron – breast
- ceiliog – cockerel
- glynu – (to) stick
- testun – subject
- angel, angylion – angel,-s

Mae'r atebion ar y gwaelod.

Idiom lingo newydd

efo Mumh

Dych chi'n gwneud llanast o bethau weithiau?

Os felly, dych chi'n gwneud cawl o bethau.

I Mumh, mae hynny fel gwneud cawl go iawn – dych chi'n taflu popeth i mewn ac yn cymysgu popeth!

Geiriau

- gwneud llanast o bethau = gwneud pethau'n anghywir
- (to) make a mess of things
- os felly – if so
- hynny – that
- taflu – (to) throw
- cymysgu – (to) mix
- popeth – everything

GWNEUD CAWL O BETHAU



Ar Draws: 4. Neb; 6. Yr Alpa; 7. Aur; 8. Yfed; 10. Tân; 11. Pigau; 13. Robin; 16. Armau; 17. Iar; 18. Olat.
I lawr: 1. Araf; 2. Glud; 3. Nadolig; 5. Bara; 9. Cannol; 10. Twrci; 12. Duaf; 14. Bar; 15. Nef.

Atebion


ap lingo

newydd



Dych chi
eisiau clywed
lingo newydd?

Dych chi eisiau
gwybod sut i
ddweud y
geiriau?



Mae ap **lingo**
newydd ar gael.

Mae ap **lingo**
newydd gydag
ap **golwg**.



ap
golwg

Chwiliwch am ap
Golwg ar iOS ar App
Store, ac ar Android
ar Google Play.

